

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol
Ionawr 2011 – Mawrth 2012



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes arnoch angen gopi o grynodeb o'r adroddiad hwn mewn fformat amgen, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad:

Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Equalities.Team@wales.gov.uk
Ffôn: 029 2089 8650
Ffôn testun: 029 2089 8601

Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, dylech alw'r rhif a ganlyn: 18001 0845 010 5500.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

Rhagair	1
Rhestr Termau	3
Crynodeb	4
01.Estyn allan i'r cyhoedd	6
01.1.Digwyddiadau ac arddangosfeydd.....	6
01.2.Ymgysylltu â phobl amrywiol ledled Cymru	8
01.3.Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.....	12
02.Cynorthwyo ein gweithlu	15
02.1.Cydnabyddiaeth allanol.....	18
03.Cynorthwyo'r Aelodau, eu staff a Busnes y Cynulliad	19
04.Pa mor bell yr ydym wedi cyrraedd?	22
Atodiad A: Cynnydd mewn perthynas â'r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2008-2012	24
Atodiad B: Ystadegau'n ymwneud â'r gweithlu yn ôl y meysydd cydraddoldeb	32
Atodiad C: Ystadegau recriwtio a chydraddoldeb o fis Ionawr 2011 i fis Mawrth 2012	37
Atodiad Ch – Adolygiad Cyflog Cyfartal	43

Rhagair

Dyma'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol olaf ar sail ein Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2008-2012. Mae'r adroddiad yn gyfle i bob un ohonom bwysu a mesur ble'r ydym ni arni, pa mor bell yr ydym wedi cyrraedd a pha heriau sy'n parhau o'n blaen.

Mae cydraddoldeb wedi bod yn un o egwyddorion craidd y Cynulliad erioed, ac mae ein hymrwymiad i hybu cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu yn parhau.

Mae cydraddoldeb yn seiliedig ar y cysyniadau o degwch, urddas a pharch, ac mae'n faes yr ydym wedi ymrwymo'n bersonol iddo. Rydym wrth ein bodd o allu gweithio gyda staff y Cynulliad, ym mhob rhan o'r sefydliad, sy'n rhannu'r ymrwymiad hwnnw ac yn falch o'r ffaith bod cydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn.

Cafwyd llawer o uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n destun dathlu yn yr adroddiad hwn. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn y ffaith ein bod yn ymgysylltu â phobl Cymru a'n bod wedi croesawu llawer o westeion ardderchog. Rydym wedi cael y pleser o gyfarfod ag ystod eang o'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli, drwy amrywiaeth o gyfleoedd a oedd yn cynnwys siarad ar y prif lwyfan ym Mardi Gras Caerdydd-Cymru, dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gyda grŵp o fenywod gwirioneddol ysbrydoledig, croesawu Archegob Caergaint i siarad yn adeilad y Pierhead ac ymweld â grwpiau amrywiol ledled Cymru. Mae'r gydnabyddiaeth a'r gwobrau yr ydym wedi eu cael gan gyrff allanol megis Stonewall Cymru hefyd yn dangos ein bod o ddifrif ynghylch ein hymrwymiad i fod yn sefydliad gwirioneddol amrywiol a blaengar.

Ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo. Er gwaetha'r cynnydd da yr ydym wedi ei wneud ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb cyntaf yn 2008, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i wella. Ein nod yw bod yn sefydliad sy'n batrwm i eraill ei ddilyn o safbwynt y modd yr ydym yn cynorthwyo ein staff, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb newydd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012, yn amlinellu sut y byddwn yn parhau i hybu cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau, ein gwybodaeth a'n hadeiladau yn hygyrch i bawb.



**Rosemary Butler, AC,
Llywydd a Chadeirydd
Comisiwn y Cynulliad**



**Sandy Mewies, AC,
Comisiynydd y Cynulliad â
chyfrifoldeb am
gydraddoldeb**



**Claire Clancy, Prif
Weithredwr a Chlerc
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru**

Rhestr Termau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – mae'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad sydd wedi eu hethol i gynrychioli pobl Cymru, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Aelodau'r Cynulliad – gwleidyddion wedi eu hethol sy'n ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r 60 o Aelodau yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru.

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) – y corff sy'n darparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad. Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol.

Y Llywydd – yr Aelod Cynulliad a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol i gadeirio dadleuon y Cyfarfodydd Llawn a chynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Busnes y Cynulliad – y gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys yn nadleuon y Cyfarfodydd Llawn, mewn pwyllgorau ac yng nghyswllt eu hetholaeth.

Iaith Arwyddion Prydain – dull cyfathrebu a ddefnyddir gan bobl fyddar yn y DU.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – y corff cyhoeddus yn y DU sydd â chyfrifoldeb statudol am hybu a gorfodi deddfau sy'n ymwneud â sicrhau cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu, ac sydd â chyfrifoldeb statudol am ddiogelu hawliau dynol.

Hygyrchedd – cynllunio gwasanaethau a chyfleusterau ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ymgysylltu â'r Cynulliad yn ddirwystr. Er enghraifft, darparu systemau dolenni clyw neu ddarparu rampiau ar gyfer adeiladau er mwyn galluogi ymwelwyr anabl i gael mynediad iddynt, neu ddefnyddio iaith syml a chdir yn ein taflenni er mwyn helpu pawb i ddeall y wybodaeth yr ydym yn ei darparu.

Crynodeb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu adnoddau, eiddo a staff i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu fel sefydliad seneddol. Felly, mae gan y Comisiwn gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu cynnig i'r cyhoedd yn cynnwys croesawu ymwelwyr i ystâd y Cynulliad a darparu gwybodaeth i bobl ac i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob cwr o Gymru sy'n ymweld â ni.

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2011-12 yn rhoi trosolwg o'r modd y gweithredwyd blwyddyn olaf Cynllun Cydraddoldeb y Comisiwn ar gyfer 2008-2012. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pa mor bell yr ydym wedi cyrraedd ers cyhoeddi ein cynllun. Ers iddo gael ei gyhoeddi, rydym wedi cynyddu'r graddau yr ydym yn ymgysylltu â grwpiau ledled Cymru sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, rydym wedi datblygu polisiau staff cynhwysol ac rydym wedi gwella'r systemau sydd ar waith i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith y mae angen i ni ei wneud o hyd, ochr yn ochr â'r llwyddiannau niferus yr ydym wedi eu sicrhau. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2012-2016 yn darparu fframwaith ar gyfer y modd y byddwn yn cyflawni ein nodau o ran cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf.

Mae staff ar draws Comisiwn y Cynulliad wedi mabwysiadu'r ethos o degwch, urddas a pharch, gan sicrhau ein bod yn gweithredu fel sefydliad sy'n batrwm i eraill ei ddilyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r ffyrdd yr ydym wedi hybu cydraddoldeb rhwng mis Ionawr 2011 a mis Mawrth 2012.

Mae uchafbwyntiau ein gwaith yn ystod 2011-12 yn cynnwys y canlynol:

- Hybu ymgysylltu democrataidd drwy ein hymgyrch 'Pleidleisiwch 2011'. Cafodd yr ymgyrch ei chreu er mwyn annog pobl i bleidleisio yn etholiad a refferendwm y Cynulliad. Yn rhan o'r ymgyrch, bu i ni sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu mewn ystod o fformatau hygyrch;
- Datblygu'r modd yr ydym yn ymgysylltu â phobl amrywiol Cymru. Rydym wedi parhau i groesawu ystod eang o ymwelwyr i'r Cynulliad ac rydym wedi cynyddu'r gwaith a wnawn gyda grwpiau cymunedol amrywiol a mudiadau'r trydydd sector ledled Cymru;
- Cynorthwyo ein rhwydweithiau o staff i chwarae rôl weithredol o safbwynt asesu effaith ein polisiau;
- Cyrraedd yr 20^{fed} safle ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle 2012 Stonewall. Mae'r Mynegai yn rhestru'r gweithleoedd mwyaf cyfeillgar i bobl hoyw ym Mhrydain, ac rydym yn falch o fod wedi gwella ein safle yn y 100 Uchaf am y bedwaredd flwyddyn yn olynol;
- Cynorthwyo aelodau o staff i ddysgu laith Arwyddion Prydain. Gan adeiladu ar ein hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod, mae nifer o staff wedi bod yn mynychu dosbarthiadau laith Arwyddion Prydain, ac mae un grŵp wedi cwblhau'r cwrs Lefel 2;
- Croesawu ystod eang o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd a drefnwyd gan grwpiau amrywiol. Rydym wedi dathlu amrywiaeth o achlysuron, gan gynnwys Mis Hanes Pobl

Dduon, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, a lansio Diverse Cymru;

- Darparu gwybodaeth a chymorth i Aelodau'r Cynulliad ynghylch cydraddoldeb. Yn dilyn etholiad mis Mai 2011, bu i ni ddatblygu ystod o daflenni ffeithiau i hysbysu'r Aelodau o'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Ymgynghori'n eang ag ystod o grwpiau amrywiol ledled Cymru wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2012-2016.

Ein ffocws ar gyfer 2012-2016 fydd gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb newydd. Rydym wedi nodi'r canlynol fel pedwar amcan sy'n flaenoriaeth:

- Annog ac ehangu ymgysylltiad â'r cyhoedd;
- Datblygu Comisiwn y Cynulliad ymhellach fel cyflogwr cyfle cyfartal;
- Cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff a darparu gwasanaethau iddynt;
- Sefydlu cydraddoldeb ym mhrosesau rheoli'r sefydliad.

Ceir nifer o amcanion y byddwn yn mynd ati'n syth i weithio tuag at eu cyflawni yn 2012. Mae'r amcanion hynny'n cynnwys:

- Creu rhaglen hyfforddiant benodol i staff ar gydraddoldeb;
- Cynnal archwiliad hygyrchedd o ystâd y Cynulliad;
- Gwella hygyrchedd ein gwybodaeth;
- Gwella sut yr ydym yn casglu data cydraddoldeb am staff;
- Cyflwyno adnodd ar gyfer Asesu Effaith ar Gydraddoldeb; a
- Lansio rhwydwaith amlddiwylliannol a rhwydwaith menywod ymhlith y staff.

Rydym wedi cynnwys pedwar atodiad yn yr adroddiad sy'n darparu'r manylion diweddaraf am ein hamcanion yn ogystal â data ystadegol sy'n ymwneud â'n gweithlu, gwaith recriwtio a chyflogau cyfartal.

01. Estyn allan i'r cyhoedd

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad democrataidd sy'n cynrychioli holl bobl Cymru. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn helpu pobl i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad. Rydym yn gwneud hynny trwy groesawu pobl i'n hystâd a thrwy gysylltu â chymunedau a grwpiau amrywiol ledled Cymru. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i ymgysylltu â phobl Cymru.

Y Llywydd yn hybu cydraddoldeb a gwaith ymgysylltu

Ers iddi gael ei hethol ym mis Mai 2011, mae'r Llywydd, Rosemary Butler AC, wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb a hybu ymgysylltu democrataidd ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae addysgu pobl am waith y Cynulliad a'u hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn ddau o brif flaenoriaethau'r Llywydd.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, sefydlwyd rhaglen o ddigwyddiadau rhanbarthol i alluogi'r Llywydd i siarad â menywod amrywiol ledled Cymru. Arweiniodd y gwaith hwn at ddigwyddiad i ddatlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a bydd y gwaith yn parhau trwy gydol y flwyddyn gan orffen gyda chynhadledd ym mis Tachwedd 2012.

Mae'r Llywydd hefyd wedi achub ar sawl cyfle eleni i gysylltu â phobl a chyrrff amrywiol. Er enghraifft, mae wedi cyfarfod â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae wedi cynnal sgwrs dros y we â myfyrwyr chweched dosbarth i godi ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth, mae wedi hyrwyddo'r Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia, ac mae wedi croesawu Archsgob Caergrawnt, a fu'n sôn am ei farn ynghylch uno a chryfhau cymunedau.

01.1. Digwyddiadau ac arddangosfeydd

Mae ystâd y Cynulliad yn lleoliad cyhoeddus hygyrch sydd â phroffil uchel. Gan hynny, caiff llawer o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n ymdrin ag ystod o bynciau eu cynnal yn ein hadeiladau bob blwyddyn. Mae rhai o'r digwyddiadau wedi'u trefnu gennym ni, mae llawer o'r digwyddiadau wedi'u trefnu ar y cyd â chyrrff allanol, ac mae llawer mwy o'r digwyddiadau wedi'u trefnu gan gyrff allanol ac wedi'u cynnal gennym ni. Mae rhai o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar ystâd y Cynulliad yn ystod 2011-2012 wedi'u nodi isod.

Digwyddiadau i hybu ymgysylltu democrataidd

Rydym wedi ymrwymo i hybu ymgysylltu democrataidd, ac rydym wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau i'r perwyl hwn. Er enghraifft,

- Roedd y digwyddiad 'Ehangu Ymgysylltiad' yn ddigwyddiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, a'i nod oedd hybu cyfranogiad democrataidd ymysg pobl anabl.
- Bu i ni gynnal cynhadledd ddeuddydd ar y cyd i fyfyrwyr Safon Uwch a oedd yn astudio Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, lle bu'r cyfranogwyr yn dysgu am waith y Cynulliad. Ar ddiwedd y gynhadledd cyflwynodd y cyfranogwyr ddeiseb i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad.
- Bu i ni weithio gyda Chymdeithas Hansard i drefnu digwyddiad o'r enw 'Pobl Ifanc a Gwleidyddiaeth yng Nghymru', lle'r oedd plant a phobl ifanc yn gofyn cwestiynau i banel o Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr pobl ifanc.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Bob blwyddyn rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn 2011, yn dilyn pleidlais gyhoeddus dewiswyd y gwleidydd Megan Lloyd George i'w hychwanegu at ein harddangosfa barhaol o bobl o bwys o safbwynt hanes Cymru.

Yn ogystal bu i ni gynnal arddangosfa a digwyddiad ar ran Cymdeithas Celfyddydau'r Menywod, digwyddiad ar ffurf caffi'r byd ar gyfer Merched yn Gwneud Gwahaniaeth lle gallai'r cyfranogwyr rannu eu profiadau o ddinasyddiaeth weithgar, a chroesawodd y Llywydd ymwelwyr o Wlad Iorddonen a'r Aifft i drafod y graddau y caiff menywod eu cynrychioli mewn swyddi gwleidyddol.

Yn 2012, buom yn gweithio gyda'r Sefydliad Materion Cymreig, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Sefydliad y Merched a'r British Council i ddatblygu rhaglen o weithgareddau yn y Senedd ac yn adeilad y Pierhead. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cyfarfod brecwast a gynhaliwyd gan y Llywydd, trafodaeth ar ffurf panel, darlithiau a gweithdai.



Perfformiodd côr plant Destiny Africa yn y Senedd fel rhan o'i daith

Digwyddiadau eraill

Gan fod gennym adeilad hygyrch fe'i defnyddiwyd i gynnal ystod eang o ddigwyddiadau gan gyrrff allanol hefyd. Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ein hadeilad yn ystod 2011-2012 yn cynnwys y canlynol:

- Action on Hearing Loss yn lansio ei siarter “Louder than Words”;
- Dathlu Mis Hanes Pobl Dduon gydag arddangosfa o'r enw “Ghandi, King, Ikeda: A Legacy of Building Peace”, a digwyddiad i lansio'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd ar draws Cymru;
- Bu côr plant Destiny Africa o Kampala, Uganda ar y llwyfan yn perfformio ac yn adrodd eu straeon;
- Bu i ni ddathlu lansio elusen newydd, Diverse Cymru;

- Lansiodd Canolfan Ragoriaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Fis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol trwy gynnal digwyddiad ac arddangosfa;
- Cynhaliodd Hafal ddigwyddiad ac arddangosfa i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd;
- Cynhaliwyd derbynwest i'r athletwyr o Gymru a fu'n cymryd rhan yn y Gêmau Olympaidd Arbennig yn Athen yn 2011.

01.2.Ymgysylltu â phobl amrywiol ledled Cymru

Rydym yn cydnabod bod Cymru'n wlad amrywiol, ac rydym yn deall pwysigrwydd ymgysylltu â phobl o bob cefndir ledled Cymru. Mae'r adran ganlynol yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith allgymorth a rhai o'r digwyddiadau allanol yr ydym wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2011-2012.

'Pleidleisiwch 2011'

Wrth i ni nesáu at y refferendwm ynghylch rhoi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011 ac etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011, aethom ati i gynhyrchu ystod o ddeunyddiau clir a chryno yn hybu ymgysylltu dan y faner 'Pleidleisiwch 2011'. Bu i ni ddatblygu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, deunydd hawdd ei ddarllen a fideo laith Arwyddion Prydain. Roedd y wybodaeth ar gael ar-lein ar ffurf dogfen PDF, dogfen Word a fersiynau troi tudalen, a bu i ni roi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth trwy'r bobl a'r cyrff y mae gennym gysylltiadau â nhw, trwy ein gwaith allgymorth a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol

Bob blwyddyn mae OUT-NAW, rhwydwaith staff y Cynulliad i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, yn gweithio gyda sefydliadau partner lleol i nodi Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Yn ystod 2011 a 2012 buom yn dathlu trwy gynnal digwyddiadau'n canolbwyntio ar bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol ym myd chwaraeon. Yn ogystal, trefnodd OUT-NAW fod baner yr enfys yn cael ei chwifio yn y Cynulliad i ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol.

Y Tîm Allgymorth

Mae ein Tîm Allgymorth yn gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau a chyrff ledled Cymru i arddangos y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud a hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall y cyhoedd ryngweithio â'r Cynulliad. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm wedi gweithio gydag ystod o grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a grwpiau yn y trydydd sector, gan gynnwys Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, Age Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Grŵp Mynediad Conwy, Cymunedau yn Gyntaf, Plant yng Nghymru, y Sgowtiaid, Grŵp Ieuencid VIVA i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, y Tîm Cefnogi Ieuencid Ethnig, Cymdeithas y Byddar Cymru, Trans G.I.S.T. a Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru.

Astudiaeth achos gwaith allgymorth – Fforymau clybiau i bobl fyddar

Yn rhan o bartneriaeth y Tîm Allgymorth â Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain bu i ni ymweld â fforymau clybiau i bobl fyddar i roi cyflwyniadau ynghylch rôl Aelodau'r Cynulliad, sut y mae'r Cynulliad yn gweithio a'r modd y gallent ymgysylltu â'r Cynulliad. Buom yn siarad â dros 160 o aelodau fforymau mewn wyth clwb i bobl fyddar.

Astudiaeth achos gwaith allgymorth – Prosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro

Bu'r Tîm Allgymorth yn gweithio gyda Phrosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro i ddarparu gweithdai i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch deall y Cynulliad ag ymgysylltu ag ef. Ar ôl y gweithdai hyn cyflwynodd y grŵp ddeiseb i'r Cynulliad ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

“Mae gweithio gyda Thîm Allgymorth y Cynulliad i ddod â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn werthfawr iawn.”

Prosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro

Ymunodd y Llywydd â Thîm Allgymorth a Thîm Digwyddiadau'r Cynulliad i fynychu Mardi Gras Caerdydd-Cymru ym mis Medi 2011, lle bu'n siarad â llawer o grwpiau a oedd â stondinau gwybodaeth yno, ac yn rhoi araith yn pwysleisio'r ffaith bod cydraddoldeb yn un o egwyddorion sylfaenol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ogystal, mynychodd rai o ddiwyddiadau'r haf yn 2011, gan gyfarfod â llawer o grwpiau gan gynnwys Sefydliad y Merched, Merched y Wawr ac Age Cymru yn y Sioe Frenhinol, a Stonewall Cymru yn yr Eisteddfod yn Wrecsam.



Y Llywydd yn cwrdd â Merched y Wawr yn y Sioe Frenhinol yn 2011

Addysg

Mae ein Tîm Addysg yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, athrawon a darlithwyr ledled Cymru ac yn croesawu grwpiau i'r Cynulliad. Caiff dulliau addysgu eu teilwra i sicrhau eu bod yn addas i grwpiau oedran a galluoedd penodol, a bodlonir gofynion ychwanegol pan fydd hynny'n bosibl.

Astudiaeth achos: Cysylltu diwylliannau

Ym mis Mawrth 2012, cynhaliodd y Tîm Addysg a changen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ddigwyddiad o'r enw 'Cysylltu diwylliannau', ar gyfer pobl ifanc i drafod rôl diwylliant, yr effaith y mae'r cyfryngau'n ei chael ar oresgyn rhwystrau cymdeithasol a sut y gellir sicrhau cydlyniant diwylliannol mewn cymdeithas fodern ac amrywiol. Roedd y cyfranogwyr o ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol lleol yn cynrychioli 80 cenedl wahanol.

“Cefais fy ysgogi gan y ddadl i ailystyried fy marn am gysylltiadau rhwng diwylliannau, a sylweddolais mor bwysig yw cael diwylliant i'w rannu yn y lle cyntaf.”

Karen Odidika, myfyriwr yng Ngholeg yr Iwerydd



Cyfranogwyr o'r digwyddiad Cysylltu Diwylliannau i bobl ifanc, mis Mawrth 2012

Ymweliadau

Gall ymwelwyr â'r Senedd ac adeilad y Pierhead fynd ar daith gyda'n tîm Blaen y Tŷ. Mae llawer o aelodau'r tîm wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod a byddardod-dallineb ac maent yn dysgu iaith Arwyddion Prydain. Rydym bob amser yn nodi unrhyw ofynion o ran mynediad i hwyluso'r ymweliad. Mae ymwelwyr wedi gofyn am gael defnyddio cyfieithwyr iaith arwyddion a chyfleusterau cyfieithu eraill yn ogystal â chadeiriau olwyn a chyfleusterau ar gyfer cŵn cymorth, a darparwyd yr holl gyfleusterau hyn.

Astudiaeth achos: Ymweliad gan fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches o Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd

"Ar ôl yr ymweliad, mae aelodau'r grŵp bellach yn teimlo y gallant ymweld â'r Senedd eto ar eu pen eu hunain neu gyda'u teuluoedd, ac y byddant yn cael croeso. Dywedodd aelodau'r grŵp ar ôl yr ymweliad mai hwn oedd y trip gorau yr oeddent wedi bod arno, ac maent yn awyddus i ddychwelyd i weld un o gyfarfodydd y Cynulliad un prynhawn."

Sue Northover, Tiwtor Prosiect Integreiddio Ysgol Uwchradd Willows/Cymunedau yn Gyntaf

Casglu safbwyntiau i ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012-2016

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ym mis Ebrill 2012. Er mwyn helpu i ddatblygu ein cynllun buom yn ymgynghori â'r cyhoedd, ein staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau. Cynhyrchwyd y cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad mewn ystod o fformatau hygyrch ac ieithoedd cymunedol, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain. Roedd y cwestiynau hyn ar gael ar ein gwefan a chawsant eu hyrwyddo trwy gyfrwng datganiad i'r wasg a gwefannau Twitter a Facebook. Rhannwyd dolenni cyswllt a oedd yn arwain at yr arolwg i'r cyhoedd â'r holl bobl a chyrrff y mae gennym gysylltiad â nhw ym maes cydraddoldeb ar hyd a lled Cymru. Er mwyn ychwanegu at y wybodaeth a oedd yn dod i law o'n harolygon, buom yn cynnal grwpiau ffocws â chyrrff cynrychioladol ar draws Cymru. Mae ein cynllun newydd, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am ein hymarfer ymgynghori, ar gael ar wefan y Cynulliad.

01.3.Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Adeiladau hygyrch

Mae ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn ganolbwynt i ddemocratiaeth yng Nghymru. Gan hynny, ein nod yw sicrhau bod ein hadeiladau ar draws yr ystâd mor hygyrch ag sy'n bosibl. Caiff materion sy'n ymwneud â mynediad eu hystyried cyn i unrhyw welliannau neu newidiadau sylweddol gael eu gwneud. Ymgynghorwyd hefyd â defnyddwyr gwasanaeth anabl i sicrhau bod ein hadeiladau'n hygyrch.

Mae gennym gyfleusterau hygyrch ar draws ein hystâd gan gynnwys systemau dolenni clyw, rampiau, arwyddion pwrpasol ar wydr a thoiledau hygyrch, yn ogystal â chyfleuster ystafelloedd newid. Caiff cyfleusterau o'r fath eu gwirio a'u cynnal a'u cadw'n gyson.

Yn 2011, bu i ni ddiweddarau ein harwyddion Braille, gwella arwyneb rampiau a phalmentydd i sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, gosod rheiliau ychwanegol ar y rampiau yn y maes parcio ac addasu'r teclynnau cau ar ddrysau a lifftiau.

Gwybodaeth hygyrch

Rydym yn cynhyrchu ystod o wybodaeth i'r cyhoedd i gyflwyno'r Cynulliad ac annog y cyhoedd i ymgysylltu â'r broses ddemocratiaidd. Mae ein strategaeth newydd ar gyfer e-ddemocratiaeth yn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau gan dargedu gwahanol grwpiau a defnyddio cyfryngau priodol ar gyfer y grŵp hwnnw, megis ffeiliau sain a ffeiliau fideo.

Mae gan bob aelod o staff sy'n cynhyrchu gwybodaeth am y Cynulliad ganllaw i'w helpu i gynhyrchu deunyddiau clir, hygyrch a chryno. Yn ogystal, mae pob cyhoeddiad yn cynnwys datganiad sy'n nodi bod y wybodaeth ar gael mewn fformatau eraill os gofynnir amdanynt. Rydym yn ymdrechu i fodloni ceisiadau o'r fath cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn rhad ac am ddim i'r unigolyn sy'n gwneud y cais.

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gynhyrchu gwybodaeth mewn ystod o fformatau hygyrch. Cynhyrchwyd gwybodaeth ar gyfer ymgyrch 'Pleidleisiwch 2011' a'n hymgyngoriad ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb mewn sawl fformat hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, ffurf hawdd ei darllen, ieithoedd cymunedol a fideo laith Arwyddion Prydain.

Yn yr achosion hynny lle nad ydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i gynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, rydym wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth ar ffurf Braille, ffurf hawdd ei darllen, print bras ac laith Arwyddion Prydain. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch yn dueddol o fod yn fach.

Gwefan

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwefan mor hygyrch ag sy'n bosibl i bob defnyddiwr. Yn ystod 2011, bu i ni gomisiynu dau archwiliad cydraddoldeb ar ein gwefan, a datblygu arolwg i geisio adborth gan ddefnyddwyr y wefan ynghylch pa mor hygyrch ydoedd, pa mor hawdd ydoedd i'w defnyddio a sut y gellid ei gwella. Defnyddiwyd yr archwiliadau a'r adborth hyn yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r wefan newydd a lansiwyd gennym ym mis Hydref 2011.

Trafodion hygyrch

Rydym yn sicrhau bod trafodion y Cynulliad yn hygyrch er mwyn galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu â'n gwaith. Caiff ein cyfarfod llawn a sesiynau ein pwyllgorau eu darlledu ar-lein ar wefan Senedd.TV, ar wefan Democracy Live y BBC, ar raglen am.pm ar BBC2 ac ar S4C. I'r sawl sy'n ymweld â'r Senedd i weld trafodion y Cynulliad, mae cymorth cyfathrebu (megis gwasanaeth cyfieithu laith Arwyddion Prydain) ar gael os gofynnir amdano mewn da bryd.

Gall y sawl sy'n ymweld â'r Senedd wylio'r trafodion a gwrando arnynt o'r orielau cyhoeddus. Gosodwyd sgriniau darlledu newydd yn 2010, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn archwilio dulliau o ddiweddarau'r offer sain yn y Senedd. Trwy ddiweddarau'r system, byddwn yn gwella ansawdd y sain i'r cyhoedd ac yn sicrhau ei bod yn haws i ymwelwyr ddilyn y trafodion. Mae gennym system dolenni clyw ym mhob ystafell bwyllgor ac ym mhob derbynfa.

Caiff trawsgrifiadau o drafodion y Cynulliad eu cyhoeddi ar-lein mewn fformatau hygyrch.



Dr Rowan Williams, Archesgob Caergaint, yn ymweld â'r Senedd ym mis Mawrth 2012



Diwrnod Rhynglwadol y Menywod yn y Senedd ym mis Mawrth 2011

02. Cynorthwyo ein gweithlu

Rydym yn cydnabod ymrwymiad ein gweithlu ymroddedig a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i waith y Cynulliad. Trwy annog diwylliant o degwch, urddas a pharch, rydym yn parhau'n gyflogwr y mae cydraddoldeb wrth wraidd ein sefydliad.

Rydym wedi darparu gwybodaeth ystadegol ynghylch proffil ein gweithlu yn Atodiad B ac ynghylch recriwtio yn Atodiad C. Mae ein hadolygiad blynyddol o gyflog cyfartal i'w weld yn Atodiad Ch.

Timau pwrpasol

Diolch i'r Undebau Llafur a'r ffaith bod gennym dimau penodol sy'n ymdrin â Chydraddoldeb, lechyd a Diogelwch, lechyd Galwedigaethol ac Adnoddau Dynol, mae gan staff yn y Cynulliad fynediad i ystod eang o gymorth a chyngor. At hynny, mae adnoddau a gwybodaeth am gydraddoldeb ar gael i staff ar-lein.

Astudiaeth achos: Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

Mae staff yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn defnyddio offer clywedol yn ddyddiol i drawsgrifio trafodion y Cynulliad. Yn 2012, darparodd ein tîm lechyd a Diogelwch brofion awdiometrig i staff er mwyn asesu a oedd unrhyw risgiau i'w clyw o ganlyniad i ddefnyddio clustffonau'n rheolaidd. Nid oedd y profion yn dangos bod unrhyw beth mawr i bryderu yn ei gylch, ond caiff y profion eu cynnal eto ar ôl tair blynedd.

Polisiau Adnoddau Dynol Cefnogol

Mae gennym ystod o bolisiau Adnoddau Dynol cynhwysfawr sy'n cefnogi anghenion ein staff, gan gynnwys absenoldeb oherwydd trefniant gweithio hyblyg, absenoldeb rhiant, seibiannau gyrfa, polisi cam-drin domestig ac absenoldeb arbennig. Adolygwyd ein polisi cynhwysfawr ar Urddas yn y Gweithle yn 2011. Mae'r polisi wedi'i fwriadu i ddiogelu staff rhag achosion o fwlio ac aflonyddu, ac mae'n egluro gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ymdrin ag ymddygiad annerbyniol.

Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o ddiweddarau polisiau Adnoddau Dynol ac asesu eu heffaith. Yn 2011, buom yn parhau i weithio gyda'n rhwydweithiau staff i sicrhau bod y polisiau yr ydym yn eu gweithredu yn deg ac yn cydnabod anghenion amrywiol ein staff. Bu i ni ddiweddarau sawl polisi, gan gynnwys y polisiau sy'n ymdrin ag apwyntiadau meddygol, hyblygrwydd o ran staff, absenoldeb arbennig, cwyno, gwerthuso swyddi ac absenoldeb a rennir rhwng rhieni.

Ym mis Mehefin 2011 buom yn gweithio ochr yn ochr ag eiriolwyr dros staff trawsrywiol neu drawsryweddol ac a:gender (rhwydwaith cefnogi'r gwasanaeth sifil ar gyfer staff trawsrywiol, trawsryweddol a rhyngrywiol) i lansio'n llwyddiannus ein Polisi Ailbennu Rhywedd. Mae'r polisi yn amlinellu'r cymorth y gall y Cynulliad ei gynnig i staff sydd wedi bod trwy broses ailbennu rhywedd, sy'n mynd trwy'r broses ar hyn o bryd neu sy'n bwriadu gwneud hynny.

“Nid wyf yn teimlo'n anabl pan fyddaf yn dod i'r gwaith, gan fy mod yn cael fy nhrin â pharch ac mae fy sgiliau'n cael eu gwerthfawrogi.”

Sylw gan aelod o staff

Rhaglen Cymorth i Weithwyr

Mae'r Cynulliad yn tanysgrifio i Raglen Cymorth i Weithwyr, sy'n wasanaeth cwnsela a chynghori sydd ar gael i staff a'u teuluoedd. Gall y staff gael cyngor mewn sawl maes, gan gynnwys profedigaeth, straen ac iselder. Cafodd y rhaglen ei lansio am yr eilwaith gan y tîm Iechyd Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2011 a chafodd ei hyrwyddo ymhlith y staff i gyd.

Trefniadau gweithio hyblyg

Mae llawer o drefniadau gweithio ar waith i alluogi staff i ddod o hyd i batrwm gweithio sy'n gweddu i'w hanghenion. Mae patrymau gweithio nad ydynt yn batrymau gweithio safonol yn cynnwys cywasgu oriau gwaith i nifer lai o ddiwrnodau, gweithio llai o oriau, gweithio'n rhan-amser, gweithio yn ystod tymor yr ysgol a rhannu swyddi.

“Mae gallu gweithio oriau hyblyg yn golygu bod modd i mi ddod i ben â gweithio yng Nghaerdydd a byw bywyd teuluol yn ôl yn Sir Benfro trwy gywasgu fy oriau gwaith i gyfnod o bedwar diwrnod. Rwy'n credu ei bod yn wych bod y Cynulliad mor gefnogol, hyd yn oed ar gyfer swyddi uwch fel fy swydd i.”

Uwch-reolwr, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dysgu a datblygu

Gellir gweld ein hymrwymiad i sicrhau tegwch, urddas a pharch yn y cyfleoedd dysgu a datblygu niferus yn ymwneud â chydarddoldeb sydd ar gael i staff. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys hyfforddiant cynefino, modiwlau e-ddysgu, mynychu cynadleddau a seminarau a hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain.

Profiad gwaith

Gweithiodd y Cynulliad gyda phartneriaid allanol yn ystod 2010 a 2011 i ddatblygu cynllun profiad gwaith dan gymorth, a gynorthwyodd unigolyn â salwch meddwl i gymryd y camau cyntaf tuag at gyflogaeth. Helpodd y cynllun i fagu hyder yr unigolyn i wneud cais am waith cyflogedig, a darparodd gyfle dysgu gwerthfawr i staff y Cynulliad. Ers hynny rydym wedi ymrwmo i gynnig lleoliadau profiad gwaith i ragor o bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

“Cefais amser gwych yn gweithio gyda'r holl staff yn y Cynulliad. Mae wedi bod yn brofiad gwerth chweil i mi, ac rwyf wedi dysgu llawer. Mae'r profiad wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt fy nghynlluniau ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol.”

Alastair Howells, a gymerodd ran yn y cynllun profiad gwaith

Rhwydweithiau staff

Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad ddau rwydwaith staff sy'n darparu cymorth i staff: Embrace (ein rhwydwaith ar gyfer staff anabl) ac OUT-NAW (ein rhwydwaith ar gyfer staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol). Mae'r rhwydweithiau'n cefnogi eu haelodau ac yn rhoi cyngor ynghylch materion a allai effeithio ar bobl sy'n rhan o'r grwpiau hyn. Mae'r rhwydweithiau wedi dylanwadu ar nifer o bolisiau, gan gynnwys y polisi Urddas yn y Gweithle, y polisi Absenoldeb Arbennig a'r polisi Ailbennu Rhywedd.

“Gan fod y Cynulliad mor barod i ymgysylltu ag Embrace, rwyf wir yn teimlo ei fod yn gwerthfawrogi fy marn a'm profiadau fel aelod o staff anabl. Rwyf yn falch o fod yn aelod o'r rhwydwaith, ac yn teimlo fy mod yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sefydliad a'i staff.”

Aelod o Embrace

Codi ymwybyddiaeth

Rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ddatblygiadau neu ddigwyddiadau'n ymwneud â chydaddoldeb. Mae'r pynciau a gafodd sylw yn ystod 2011-2012 yn cynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Cofio'r Holocaust, Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, gweithredu yn erbyn trais ar sail rhyw, Mardi Gras Caerdydd-Cymru a salwch meddwl. Ym mis Mai 2011, lansiodd ein bwletin misol dwyieithog cyntaf ynghylch cydraddoldeb, sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth am gyhoeddiadau, digwyddiadau ac ymgynghoriadau perthnasol.



Chwifio'r faner dros Fis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, mis Chwefror 2012

02.1.Cydnabyddiaeth allanol



Stonewall TOP 100 EMPLOYERS 2012 100 CYFLOGWR GORAU

Fel cyflogwr, rydym wedi cael cydnabyddiaeth allanol am ein hymrwymiad i'n staff. Rydym wedi cyrraedd Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl. Caiff y cynllun Buddsoddwyr Pobl ei gydnabod yn rhyngwladol fel adnodd ar gyfer gwella busnesau, a dyma'r anrhydedd uchaf posibl.

Rydym hefyd yn 20fed ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae'r mynegai hwn yn meincnodi cyrff o bob rhan o'r DU trwy asesu ystod o feini prawf.

Meddai Sandy Mewies, Comisiynydd y Cynulliad â chyfrifoldeb am gydraddoldeb:

“Mae cyrraedd safle mor uchel ym mynegai Stonewall yn dangos bod y sefydliad hwn o ddifrif ynghylch bod yn gorff cynhwysol sy'n gallu cyflawni ar gyfer pob cymuned. Mae'r ffaith ein bod wedi gwella ein safle ar y mynegai, ac ein bod yn y safle cyntaf yng Nghymru o ran ein rhwydwaith i gefnogi pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, yn destun clod i staff a rheolwyr y Cynulliad.”



Cafodd OUT-NAW ei enwi fel Grŵp Rhwydwaith Gweithwyr Gorau Cymru Stonewall yn y seremoni wobrwyo ym mis Ionawr 2012

03. Cynorthwyo'r Aelodau, eu staff a Busnes y Cynulliad

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae o ran cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydaddoldeb. Mae timau ar draws Comisiwn y Cynulliad yn cynnig cyngor ac arweiniad i helpu'r Aelodau i ystyried cydraddoldeb ac ymgysylltu â phobl amrywiol ledled Cymru.

Aelodau'r Cynulliad a Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cyflogi staff cymorth ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu swyddfeydd etholaethol. Gan hynny, mae ganddynt gyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Datblygodd y Tîm Cydraddoldeb daflenni ffeithiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a gafodd eu hyrwyddo ar ein tudalennau ar y fewnwyd. Roedd y taflenni ffeithiau yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys cyngor ynghylch adeiladau hygrych, cynhyrchu gwybodaeth hygrych, cyflogi staff a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Gwneud cydraddoldeb yn rhan o waith Aelodau'r Cynulliad

Mae ein staff yn darparu ystod o wybodaeth a chymorth sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb i Aelodau'r Cynulliad:

- Rydym yn darparu bwletin cydraddoldeb misol i'r Aelodau a'r cyfle i ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb megis Iaith Arwyddion Prydain, iaith glir ac ymdrin â chwsmeriaid emosiynol.
- Mae gennym dimau sy'n darparu'r canlynol i'r Aelodau: cyngor cyfreithiol, cyngor ynghylch eu rôl fel cyflogwr a gwybodaeth ynghylch sut y gallant ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl amrywiol.
- Rydym yn darparu cymorth ymchwil a sesiynau briffio i'r Aelodau a phwyllgorau.
- Rydym yn cynorthwyo'r Aelodau i ystyried materion yn ymwneud â chydaddoldeb yn y gwaith y maent yn ei wneud mewn pwyllgorau trwy ymgysylltu'n effeithiol.

Rydym wedi datblygu Protocol Tystion Agored i Niwed, sy'n darparu cyngor ac arweiniad ynghylch dulliau effeithiol o ymgysylltu â thystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt neu ddull arall o ymgysylltu. Yn 2011 gwnaed nifer o addasiadau rhesymol i hybu cyfle cyfartal i dystion amrywiol, gan gynnwys:

- Cynnal cyfarfodydd anffurfiol er mwyn galluogi tystion i gyfarfod â Chadeiryddion pwyllgorau cyn sesiynau rhoi tystiolaeth;
- Darparu ardal fach sy'n cynnwys llyfrau a theganau i blant ifanc sy'n dod gyda'u rhieni;
- Rhoi gwybodaeth i dystion am aelodau'r pwyllgor er mwyn iddynt ymgysylltu'n effeithiol â nhw;
- Briffio'r Aelodau ynghylch sut i holi pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.

Astudiaeth achos: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod 2011, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion ifanc a oedd â phrofiad o fyw mewn tloedi. Gweithiodd ein staff yn agos ag Achub y Plant i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad yn onest â'r Pwyllgor am eu profiadau. Roedd y sesiwn dystiolaeth yn un breifat gyda chyn lleied o bobl ag oedd yn bosibl yn bresennol. Roedd yr adborth a gafwyd ynghylch y profiad yn gadarnhaol iawn, a dywedodd un ferch, "Roeddwn yn teimlo rhyddhad, ac yn teimlo fel pe baent wedi gwrando arnom ni."

Astudiaeth achos: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad yn 2011, crëodd y Pwyllgor holiadur a oedd wedi'i ysgrifennu mewn iaith hygyrch ac a oedd yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau. Cafodd elusennau pobl ifanc megis Barnado's a Plant yng Nghymru eu targedu'n benodol er mwyn cael y nifer fwyaf posibl o ymatebion. Nododd un o'r cyrff a fu'n ymwneud â'r broses o greu adroddiad etifeddiaeth:

"Mae Fairbridge De Cymru, fel elusen sy'n ymwneud â phobl ifanc, yn ddiolchgar iawn am y cyfleoedd y mae'r Pwyllgor wedi'u rhoi i ni i dynnu sylw at bryderon neu broblemau ein grŵp cleientiaid. Mae'r pwyllgor yn galluogi ein pobl ifanc i leisio barn a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn sy'n effeithio arnyn nhw."



Cwmni Theatr Hijinx yn cyflwyno ei ddeiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol, mis Mawrth 2011

Iechyd a diogelwch

Rydym wedi darparu hyfforddiant Cyfarpar Sgrîn Arddangos i staff cymorth sy'n gweithio i'r Aelodau i'w galluogi i gynnal asesiadau desg ar ran cydweithwyr. Rydym wedi datblygu Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng ar gyfer staff cymorth anabl, sy'n eu galluogi i adael y gweithle'n ddiogel. Mae addasiadau rhesymol, megis darparu offer ac addasiadau penodol i fannau gwaith, hefyd wedi'u gwneud i helpu staff i gyflawni eu gwaith.

“Fel aelod o staff byddar sy'n gweithio yn swyddfa un o'r Aelodau rwy'n cael cefnogaeth dda yn fy swydd. Mae fy nghydweithwyr yn y swyddfa wedi addasu eu harferion gwaith, ac rwyf wedi cael yr offer angenrheidiol i'm galluogi i ddefnyddio fy sgiliau i'r eithaf. Mae hynny wedi fy ngalluogi i wneud cyfraniad llawn i'r tîm.”

Aelod o staff cymorth anabl sy'n gweithio i Aelod Cynulliad

Y penderfyniad ynghylch cyflog a gwariant Aelodau – sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliodd y Tîm Cydraddoldeb asesiad sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt y penderfyniad ynghylch cyflog a gwariant yn 2011. Roedd hynny'n golygu asesu'r ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn y rheolau sy'n rheoli cyflog a threuliau'r Aelodau. Roedd yr asesiad sgrinio'n defnyddio tystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau ac yn ystyried rheolau'r penderfyniad i roi darlun cyffredinol o ba mor effeithiol y mae'r Cynulliad yn cefnogi'r Aelodau. Roedd problem bosibl yn ymwneud â'r penderfyniad yn edrych ar ddarparu cymorth ariannol i alluogi'r Aelodau i gysylltu ag etholwyr amrywiol. O ganlyniad, dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu Cronfa Fynediad i Aelodau.

Datblygu Cronfa Fynediad

Mae Tîm Cydraddoldeb a Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau wedi cydweithio i ddatblygu Cronfa Fynediad i Aelodau, ac fe'i lanswyd yn 2012. Mae amcanion cyffredinol y Gronfa fel a ganlyn:

- darparu offer a chymorth ychwanegol i Aelodau anabl a'u staff er mwyn eu galluogi i gyflawni eu gwaith;
- darparu cymorth cyfathrebu i alluogi'r Aelodau i ymgysylltu ag etholwyr amrywiol;
- galluogi'r Aelodau i wneud addasiadau ffisegol er mwyn gwneud eu swyddfa yn fwy hygyrch;
- lleihau'r risg o weithredu neu ddiffyg gweithredu mewn modd sy'n groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng y Gronfa Fynediad a nodau strategol Comisiwn y Cynulliad, sef darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf ac ymgysylltu â phobl Cymru.

04. Pa mor bell yr ydym wedi cyrraedd?

Ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb cyntaf yn 2008, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y modd yr ydym yn ystyried cydraddoldeb. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cynyddu'r gwaith allgymorth yr ydym yn ei wneud a chynyddu'r graddau yr ydym yn ymgysylltu â grwpiau amrywiol ledled Cymru ac ar ein hystâd;
- Sicrhau bod ein cyhoeddiadau, ein hadeiladau a'n gwefan yn fwy hygyrch;
- Creu cyfleoedd i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gael profiad gwaith;
- Darparu cynlluniau arobryn lle caiff pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol eu mentora gan Aelodau'r Cynulliad;
- Rhoi mwy o ystyriaeth i gydraddoldeb wrth ddatblygu ac adolygu polisiâu ac wedi creu polisiâu newydd (megis ein polisi cam-drin domestig a'n polisi ailbennu rhywedd) sy'n cefnogi ac yn cydnabod ein staff amrywiol;
- Darparu mwy o gyfleoedd codi ymwybyddiaeth i'n staff a'r Aelodau;
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb, gan gynnwys dosbarthiadau Iaith Arwyddion Prydain;
- Sefydlu rhwydweithiau staff gweithredol sy'n cefnogi staff, yn hybu cydraddoldeb ac yn helpu i asesu effaith ein gwaith;
- Sicrhau bod yr Aelodau'n cael mwy o gymorth i gynnwys ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn eu gwaith;
- Paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Cael cydnabyddiaeth gan gyrff allanol am ein gwaith.

Rydym yn cydnabod y ceir rhai meysydd lle nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oeddem wedi'i obeithio. Felly, rydym wedi sicrhau bod y meysydd gwaith hynny wedi'u cynnwys yn yr amcanion y mae angen rhoi sylw iddynt yn syth yn ein Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2012-16.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2012-2016 ym mis Ebrill 2012, ac mae'n canolbwyntio ar y pedwar amcan canlynol sy'n flaenoriaeth:

- Annog ac ehangu ymgysylltiad â'r cyhoedd;
- Datblygu Comisiwn y Cynulliad ymhellach fel cyflogwr cyfle cyfartal;
- Cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'u staff a darparu gwasanaethau iddynt;
- Sefydlu cydraddoldeb ym mhrosesau rheoli'r sefydliad.

Mae'r hyn y byddwn yn ymrwymo iddo yn syth yn 2012 yn ein Cynllun Cydraddoldeb newydd yn cynnwys:

- Cynyddu'r data monitro sydd ar gael mewn perthynas â staff;
- Ymgysylltu â phobl amrywiol ledled Cymru;
- Datblygu strategaeth hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff;
- Ffurfioli asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb;
- Darparu mwy o gyfleoedd profiad gwaith i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- Bod yn sefydliad hygyrch;

–Sicrhau bod staff, Aelodau, eu staff hwythau a'r cyhoedd yn parhau i ystyried y Cynulliad yn sefydliad sy'n ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2012-16 ar gael ar ein gwefan, ac mae'r crynodeb ar gael mewn fformatau hygyrch os gofynnir amdano.

Atodiad A: Cynnydd mewn perthynas â'r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2008-2012

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r amcanion a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2008-12.

Allwedd ar gyfer statws

- 1 Mae'r amcan ar waith ac mae'n ymrwymiad parhaus
- 2 Mae cynnydd wedi'i wneud ond mae angen gwneud datblygiadau pellach
- A Amherthnasol

	Rheoli a Chynllunio Corfforaethol Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
A1	Cynllun Cydraddoldeb effeithiol ar waith sy'n cael ei fonitro, ac y ceir adroddiad rheolaidd ar yr amcanion cydraddoldeb ynddo a'n cynnydd wrth eu cyflawni	1	Cyhoeddwyd y cynllun yn 2008; mae adroddiadau cynnydd wedi'u cyhoeddi'n flynyddol ers hynny.
A2	Cynllun a Chynllun Gweithredu sy'n cael ei adolygu'n allanol bob tair blynedd	A	Penderfynwyd peidio â chynnal adolygiad allanol gan fod gwaith craffu'n cael ei wneud gan Gomisiwn y Cynulliad, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb.
A3	Amcanion cydraddoldeb yn cael eu hystyried mewn prosesau cynllunio gwaith meysydd gwasanaeth	1	Mae pob maes gwasanaeth yn gweithredu cynlluniau gwasanaeth blynyddol sy'n cynnwys amcanion yn ymwneud â chydraddoldeb.
A4	Polisiau newydd a rhai arfaethedig yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb a staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni hyn	2	Caiff effaith polisiau ac arferion perthnasol ei hasesu. Mae system a rhaglen hyfforddi fwy ffurfiol wrthi'n cael eu datblygu.
A5	Rhwydweithiau/ perthnasoedd gweithio mewnol effeithiol ar waith i ddarparu sail ar gyfer ein gwaith ar gydraddoldeb	1	Mae rhwydweithiau staff, undebau a'r Tîm Cydraddoldeb yn asesu polisiau newydd cyn eu cyhoeddi.
A6	Rhwydweithiau/ perthnasoedd gweithio allanol effeithiol ar waith i ddarparu sail ar gyfer ein gwaith ar gydraddoldeb	1	Rydym yn parhau i gysylltu â seneddau eraill yn y DU, llywodraeth leol a chyrff cynrychioladol i rannu arfer da a bod yn sail i'n gwaith ar gydraddoldeb.

A7	Cyngor amserol a manwl gywir ar faterion cydraddoldeb, mynediad a hawliau dynol ar gael i staff ac Aelodau'r Cynulliad	1	Mae'r Tîm Cydraddoldeb a'r rhwydweithiau staff yn weledol ac ar gael i ddarparu cyngor. Caiff ystod o wybodaeth ei chyhoeddi ar ein tudalennau ar y fewnwyd i staff a'r Aelodau.
A8	Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ac Aelodau'r Cynulliad o gydraddoldeb, mynediad a hawliau dynol	1	Rydym yn cynhyrchu bwletin cydraddoldeb misol ac yn codi ymwybyddiaeth trwy nodi digwyddiadau a dathliadau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Rydym hefyd wedi darparu taflenni ffeithiau ynghylch cydraddoldeb i'r Aelodau.
A9	Ymgysylltu mwy ag aelodau cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, â'r nod o hybu ac ehangu ymgysylltu â democratiaeth a chymryd rhan ynddi	1	Rydym yn ymgysylltu ag ystod amrywiol o gyrff cynrychioladol i hyrwyddo ein gwaith ac annog cyfranogiad. Bu i ni gysylltu ag ystod o gyrff wrth ymgynghori ynghylch ein Cynllun Cydraddoldeb newydd.
	Adnoddau Dynol Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
B1	Ein swyddi gwag yn cyrraedd y grwpiau lleol hynny sy'n cynrychioli pobl o dras ethnig leiafrifol ac yn denu'r nifer o geisiadau oddi wrth y grwpiau hyn sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol, gyda golwg ar estyn hyn fesul cam i'r meysydd cydraddoldeb eraill	2	Caiff ein swyddi gwag eu hysbysebu mewn canolfannau gwaith a thrwy gyrff a gwefannau allanol megis Stonewall a Diversity Group. Mae angen gwneud rhagor o waith i annog ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio.
B2	Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, Aelodau'r Cynulliad a staff Aelodau'r Cynulliad o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb/hawliau dynol a'r meysydd cydraddoldeb. Hefyd, dealltwriaeth o oblygiadau'r Cynllun Cydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus	2	Rydym wedi cynhyrchu taflenni ffeithiau i'r Aelodau a bwletin cydraddoldeb misol i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchodedig. Caiff gwybodaeth ei rhannu ar dudalennau'r fewnwyd sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae newyddion ac erthyglau yn ein cylchgrawn mewnol hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Rydym wedi darparu hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain a hyfforddiant mewn pynciau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, ac mae hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2012.

B3	Bwlio ac aflonyddu'n cael eu cymryd o ddifrif a staff wedi'u haddysgu am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau	1	Mae ein polisi Urddas yn y Gweithle yn ymdrin â bwlio ac aflonyddu, ac mae'n egluro'r weithdrefn i'w dilyn os daw cwyn i law. Mae hyfforddiant yn gysylltiedig â'r polisiau hyn wedi'i lansio ac mae'n rhan o hyfforddiant cynefino'r Cynulliad.
B4	Graddau'n cael eu monitro ac unrhyw wahaniaethau o ran rhywedd yn cael sylw	1	Mae canlyniadau'r Adolygiad Cyflog Cyfartal ar gael yn Atodiad Ch.
B5	Polisiau cyflogaeth sy'n ystyried gofynion deddfwriaethol newidiol sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol	1	Mae rhaglen dreigl o adolygiadau polisi ar waith ac mae'n cynnwys yr undebau llafur, rhwydweithiau staff a'r Tîm Cydraddoldeb. Yn ystod 2011 adolygwyd sawl polisi, gan gynnwys y polisi Absenoldeb Arbennig a'r polisi Urddas yn y Gweithle.
B6	Ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori mewn prosesau recriwtio (gan gynnwys gweithio hyblyg, rhannu swyddi a threfniadau gweithio gartref)	1	Caiff trefniadau gweithio hyblyg eu cynnig gyda phob swydd os yw hynny'n bosibl. Darperir addasiadau rhesymol a chyfleusterau hygyrch bob amser, ac rydym yn arddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn ein ffurflenni cais. Caiff pob panel cyfweld ei hyfforddi i ymdrin â materion yn ymwneud â chydaddoldeb.
B7	Data gwell ar gydraddoldeb staff ar gael. Data wedi'u casglu a'u cofnodi ac ar gael yn rhwydd ar gyfer monitro polisiau cyflogaeth	2	Mae staff yn diweddarau eu gwybodaeth bersonol ar ein system ddiogel o'r enw U-Access. Rydym wedi nodi'r meysydd nad ydynt wedi'u llenwi'n ddigonol ac rydym wrthi'n ceisio gwella hynny.
B8	Egwyddor cydraddoldeb wedi'i hymgorffori yn ein strategaeth gyflogau sy'n dod i'r amlwg	1	Roedd y cytundeb diwethaf ynghylch cyflogau yn 2010 yn cadw graddfeydd cyflog byr eu hystod er mwyn ymgorffori cydraddoldeb. Mae'r adolygiad cyflog cyfartal diweddaraf i'w weld yn Atodiad Ch.
B9	Gweithwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth ac yn cyfrannu at ddatblygu polisiau a allai effeithio arnynt (rhwydweithiau staff)	1	Mae ein rhwydwaith staff i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol a'n rhwydwaith staff i bobl anabl yn hybu cydraddoldeb, yn cynorthwyo staff ac yn cyfrannu at waith adolygu polisiau gan gynnwys polisiau ynghylch apwyntiadau meddygol, absenoldeb a rennir rhwng rhieni a chyfnodau prawf. Mae dau rwydwaith staff ychwanegol wrthi'n cael eu datblygu, a byddant yn cael eu lansio yn ystod 2012.

B 10	Ein trefniadau cynefino diwygiedig i staff newydd yn gosod pwyslais priodol ar ein dyletswyddau/ ymrwymadau cydraddoldeb, a'r trefniadau hyn yn cael eu rhannu â staff Aelodau'r Cynulliad fel bo'n briodol	1	Mae ein hyfforddiant cynefino yng nghyswllt cydraddoldeb yn canolbwyntio ar degwch, urddas a pharch ac fe'i darperir i bob aelod newydd o staff a staff yr Aelodau. Darperir trosolwg o'r ddeddfwriaeth a chyfrifoldebau unigol.
B 11	Cynllun peilot wedi'i gyflwyno i hybu aseiniadau gwaith ar gyfer pobl o dras ethnig leiafrifol a'i gyflwyno fesul cam i feysydd eraill ar ôl adolygu'r cynllun peilot	1	Ar ôl cynnig dau leoliad gwaith blaenorol i bobl o leiafrifoedd ethnig, cynhaliwyd cynllun a oedd wedi galluogi unigolyn â salwch meddwl i weithio yn y Cynulliad a datblygu ei sgiliau. Caiff cynlluniau eraill eu hysbysebu trwy gyrrff cydraddoldeb lleol i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymgeisio.
	Cyfathrebu Allanol Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
C1	Gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith yn hygyrch i bawb. Mwy o ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad ledled pob sector o'r gymdeithas	1	Mae ein Tîm Allgymorth yn gweithio gyda chyrrff cynrychioladol ledled Cymru i annog cyfranogiad yn ein gwaith. Defnyddir ein Bws Allgymorth mewn digwyddiadau cymunedol. Mae ein cyhoeddiadau'n glir ac yn gwyno yn cydymffurfio â'n polisi Gwybodaeth Hygyrch. Caiff deunyddiau ysgrifenedig eu cynhyrchu mewn fformatau hygyrch os gofynnir amdanynt.
C2	Cyhoeddiadau'r Cynulliad â delweddau sy'n cynrychioli cymdeithas amrywiol yng Nghymru	1	Mae'r delweddau a ddefnyddir yn ein cyhoeddiadau'n adlewyrchu'r bobl a'r lleoedd amrywiol a geir yng Nghymru a'r 20 maes lle ceir pwerau gwleidyddol sydd wedi'u datganoli. Mae'r brand a ddefnyddiwyd yn wreiddiol ar gyfer addysg wedi'i ddefnyddio'n ehangach ar ddeunyddiau eraill sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd.
C3	Datganiadau i'r wasg/y cyfryngau'n cael eu hanfon at sefydliadau sy'n cynnwys grwpiau/sefydliadau cynrychioladol a allai gynrychioli'r buddiannau cydraddoldeb	1	Mae ein Tîm Cyfryngau'n targedu datganiadau i'r wasg perthnasol at gyrrff sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, ac mae'r Tîm Allgymorth yn rhannu gwybodaeth a'i gysylltiadau yn y gymuned.

C4	Pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn defnyddio'r Senedd a'n hadeiladau eraill ac yn ymweld â nhw	1	Mae ein Tîm Ymweliadau yn croesawu nifer fawr o ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru. Mae llawer o grwpiau a oedd yn ymwneud â'r Tîm Allgymorth yn wreiddiol wedi ymweld â'r Cynulliad wedi hynny. Mae ein Tîm Digwyddiadau wedi gweithio gyda grwpiau amrywiol i gynnal digwyddiadau yn y Senedd ac yn adeilad y Pierhead.
C5	Teithiau tywysedig o amgylch y Senedd, sy'n hygyrch i ymwelwyr â nam ar y synhwyrâu	1	Mae teithiau ar gael i bob ymwelydd, ac mae gwasanaeth cyfieithu laith Arwyddion Prydain ar gael os gwneir cais amdano ymlaen llaw. Mae aelod o staff sy'n dysgu laith Arwyddion Prydain wedi darparu taith o'r fath heb gael rhybudd ymlaen llaw. Mae ein taflenni'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn hygyrch.
C6	Cynnydd yn nifer y bobl ifanc anabl a'r bobl ifanc o dras ethnig leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn grwpiau yng nghanolfan addysg y Cynulliad	1	Mae ein Tîm Addysg yn gweithio gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru i addysgu myfyrwyr am y Cynulliad. Mae'r tîm wedi datblygu cysylltiadau cryf ag ysgolion sydd ag unedau anghenion addysgol arbennig yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd ledled Cymru. Caiff dulliau addysgu eu haddasu i gynorthwyo pob grŵp i ddysgu. Er y gallwn fonitro ysgolion sydd ag unedau anghenion addysgol arbennig, ni allwn fynd ati'n weithredol i fonitro myfyrwyr o dras ethnig leiafrifol.
C7	Digwyddiadau'r Cynulliad ledled Cymru yn fwy hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	1	Mae ein Tîm Allgymorth yn darparu gweithdai i grwpiau ledled Cymru, ac mae hefyd yn mynychu digwyddiadau rhanbarthol er mwyn cyrraedd cymunedau amrywiol. Mae'r Tîm Digwyddiadau'n darparu rhaglen o ddigwyddiadau ar yr ystâd, ac yn ystod 2011 bu'r Llywydd yn mynychu sawl digwyddiad, megis y Mardi Gras, ac yn cyfarfod â phobl ledled Cymru.
C8	Pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gwylio a/neu'n ymgysylltu â thrafodion y Cynulliad (e.e. phwyllgorau, cyfarfodydd llawn a'r system ddeisebau)	1	Mae ein Tîm Allgymorth yn gweithio gyda phwyllgorau'r Cynulliad i gynyddu'r graddau y maent yn ymgysylltu â phobl heb gynrychiolaeth ddigonol. Gall ymwelwyr â'r Senedd ddilyn y trafodion o'r orielau cyhoeddus, ac mae system dolenni clyw a sgriniau fideo wedi'u gosod ym mhob oriel. Mae dogfennau busnes ar gael mewn fformatau eraill os gofynnir amdanynt.

C9	Staff ar y rheng flaen sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n teimlo'n hyderus wrth groesawu pobl ag anghenion gwahanol i'r Cynulliad	2	Mae'r rhan fwyaf o staff y rheng flaen wedi ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ar groesawu cwsmeriaid amrywiol. Caiff rhagor o hyfforddiant ei gynnal yn ystod 2012. Mae llawer o staff y rheng flaen hefyd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 mewn Iaith Arwyddion Prydain.
	TGCh Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
D1	Gwefan hygyrch y gall pawb, gan gynnwys pobl anabl, ei chyrru'n rhwydd	1	Cynhaliwyd dau archwiliad allanol ar y wefan yn ystod 2011, a gweithredwyd yr argymhellion.
D2	Cyfarpar TG sy'n hygyrch ac ar gael i staff ag anghenion penodol mewn modd amserol	1	Darperir cyfrifiaduron i bob aelod o staff sy'n gweithio wrth ddesg. Caiff staff ag anghenion penodol eu hasesu, a darperir unrhyw gyfarpar ychwanegol y gallai fod ei angen arnynt i gyflawni eu swydd.
D3	Nodweddion newydd ar gyfer y wefan wedi'u datblygu i alluogi ymgysylltiad cyhoeddus llawn a chyfartal	2	Ni ddatblygwyd unrhyw nodweddion newydd yn ystod 2011, ond mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u defnyddio'n fwy helaeth i annog pobl i ymgysylltu â'r Cynulliad.
	Rheoli Cyflenwi/Caffael Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
E1	Ein cyflenwyr yn gweithredu i'r safon uchaf o ran materion cydraddoldeb; rhoi arwydd clir i'r gadwyn gyflenwi bod cydraddoldeb yn bwysig inni fel sefydliad ac y byddai disgwyl i gyflenwyr ymddwyn yn yr un modd	1	Mae meini prawf cydraddoldeb yn rhan o'r prosesau a ddefnyddir i ddewis cyflenwyr, ac mae pob contract yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Ymdrinnir ag achosion o weithredu'n groes i ddeddfwriaeth yn unol â thelerau ac amodau'r contract.
	Rheoli ystadau a chyfleusterau Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
F1	Adeiladau sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn amgylcheddau glân i staff, staff dan gontract, Aelodau'r Cynulliad, eu staff nhw ac ymwelwyr	1	Mae'r uned Rheoli Cyfleusterau'n gwneud gwaith cynnal a chadw'n rheolaidd ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth ynghylch iechyd a diogelwch a diogelwch tân. Ymgynghorwyd â'r sawl sy'n defnyddio'r adeiladau ac sy'n anabl i gael eu barn ynghylch pa mor hygyrch ydynt. Mae archwiliad mynediad llawn wedi'i drefnu ar gyfer 2012.

F2	Lleoedd gwaith ar gyfer staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff nhw a staff eraill dan gontract sy'n ergonomig ac yn hygyrch	1	Caiff asesiadau desg eu cynnal ar gyfer pob aelod newydd o staff ac yn flynyddol ar ôl hynny. Mae'r Aelodau'n gyfrifol am eu trefniadau asesu eu hunain, a rhoddir cymorth iddynt os oes angen. Cynhelir ymweliadau rheolaidd â phob llawr hefyd i asesu lechyd a Diogelwch.
F3	Asesiadau lechyd a Diogelwch a Risg sy'n ystyried materion cydraddoldeb a mynediad	1	Mae'r Tîm lechyd a Diogelwch yn cynnal asesiadau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, sy'n cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â hygyrchedd. Rhoddir Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng ar waith ar gyfer staff anabl.
	Tîm Diogelwch Eiddo Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
G1	Staff tîm diogelwch eiddo sy'n broffesiynol, sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n teimlo'n hyderus i ddelio ag ystod amrywiol o ymwelwyr ag anghenion gwahanol	2	Mae'r rhan fwyaf o staff diogelwch wedi ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ar groesawu cwsmeriaid amrywiol. Cynhelir hyfforddiant pellach yn ystod 2012. Mae nifer o staff diogelwch wedi ennill cymhwyster Lefel 1 mewn Iaith Arwyddion Prydain hefyd.
	Busnes y Cynulliad Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
H1	Aelodau'n cael cyfleoedd i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn eu gwaith yn y Cynulliad ac yn eu hetholaethau	1	Mae ymchwilwyr yn darparu sesiynau briffio'n gysylltiedig â chydraddoldeb i'r Aelodau, ac mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb. Mae'r pwyllgorau'n dilyn arweiniad i wneud addasiadau rhesymol er mwyn galluogi tystion sy'n agored i niwed i gyfranogi.
H2	Cynnyrch ymchwil a gyhoeddir ar dudalennau gwe Cynulliad Cenedlaethol Cymru mor hygyrch â phosibl	1	Erbyn hyn, mae'n haws symud o gwmpas tudalennau gwe'r Gwasanaeth Ymchwil, ceir teitlau mwy o faint a cheir llai o ddarluniau cefndir i sicrhau eu bod yn haws eu darllen. Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi'u defnyddio i ddsbarthu cyhoeddiadau i gynulleidfa ehangach.
H3	Ymgynghori perthnasol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol pan mae pwyllgorau craffu a deddfwriaethol yn galw am dystiolaeth	2	Mae'r pwyllgorau'n gweithio gyda'r Tîm Allgymorth i gasglu dystiolaeth gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chynyddu amrywiaeth y sawl yr ymgynghorir â nhw wrth wneud gwaith ymgysylltu.

H4	Cofnodion cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgorau'n gwbl hygyrch i staff, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd trwy wefan y Cynulliad, ac yn cydymffurfio'n llwyr â safonau AA	1	Mae trawsgrifiadau Cofnod y Trafodion ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau ar gael ar ein gwefan mewn tri fformat gwahanol – HTML, PDF a Word.
H5	Cyfarpar cyfieithu'n hygyrch i'r holl staff, Aelodau'r Cynulliad, tystion pwyllgorau, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd	2	Er bod ein cyfarpar cyfieithu cyfredol ar gael i bob defnyddiwr, rydym yn archwilio ffyrdd o'i wella. Rydym wedi gweithredu ar adborth sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb.
	Tîm Gwasanaeth Cyfreithiol Canlyniad/Amcan Gofynnol	Statws	Sylwadau
I1	Aelod o'r gwasanaeth yn arbenigo mewn materion cydraddoldeb ac yn gyfrifol nid yn unig am roi cyngor arbenigol ar faterion o'r fath ond hefyd am rannu gwybodaeth am faterion o'r fath ymhlith cyfreithwyr eraill	1	Mae aelod o'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i benodi i ddarparu cyngor i'r Aelodau a staff y Comisiwn am y gyfraith mewn perthynas â chydraddoldeb. Mae wedi cynnal cysylltiadau agos â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac wedi rhannu gwybodaeth ar draws y Cynulliad.
I2	Pob cyfreithiwr yn cael hyfforddiant priodol yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb cyfreithiol cyn diwedd cyfnod y Cynllun	1	Yn rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus, mae hyfforddiant cydraddoldeb yn un o'r amcanion penodol parhaus yn Adroddiadau Rheoli Perfformiad a Datblygiad pob cyfreithiwr yn y Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol. Mynychodd cyfreithwyr y Cynulliad hyfforddiant a gynhaliwyd gan y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus a Civitas yn edrych yn benodol ar y gyfraith mewn perthynas â chydraddoldeb a goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010.
I3	Cyfreithwyr yn paratoi adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad ar statws cyfredol y Cynulliad a'r Comisiwn o fewn fframwaith deddfwriaeth cydraddoldeb ryngwladol, y Gymuned Ewropeaidd, y DU a Chymru	1	Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn gweithio gyda'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol pan fydd angen cyngor cyfreithiol. Rhoddwyd cyngor mewn perthynas â sefydlu Cronfa Fynediad i gynorthwyo â'r gwaith o gyfathrebu ag etholwyr amrywiol, asesu'r effaith y mae polisiau'r Cynulliad yn ei chael ar gydraddoldeb a chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Atodiad B: Ystadegau'n ymwneud â'r gweithlu yn ôl y meysydd cydraddoldeb

Caiff ein gweithwyr eu hannog i ddefnyddio ein system Adnoddau Dynol, U-Access, i gofnodi gwybodaeth amdanynt eu hunain yng nghyswllt cydraddoldeb. Mae'r ystadegau a nodir yn yr adran hon yn deillio o wybodaeth a roddwyd gan y staff o'u gwirfodd, ac maent yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2011 a mis Rhagfyr 2011.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud rhagor o waith i annog ein staff i gofnodi gwybodaeth am gydraddoldeb. Mae hynny'n un o'n blaenoriaethau ar gyfer 2012.

Mae ein strwythur staffio wedi'i drefnu fel a ganlyn:

Staff Uwch, gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr
Band Gweithredol 1
Band Gweithredol 2
Band Rheoli 1
Band Rheoli 2
Band Rheoli 3
Cymorth Tîm

Rhyw staff y Cynulliad yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2	G-1	Staff Uwch	Cyfanswm	
								Nifer	%
Menywod	39	28	63	25	19	7	2	183	50.8
Dynion	76	30	28	21	16	3	3	177	49.2
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360	100.0

Mae'r ffigurau uchod yn dangos y ceir cydbwysedd da rhwng y rhywiau yn y sefydliad, gyda 50.8% o'r staff yn fenywod a 49.2% yn ddynion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y ceir rhai gwahaniaethau. Er enghraifft, ceir mwy o ddynion na menywod ar radd Cymorth Tîm, ac mae hynny oherwydd bod y rhan fwyaf o'r swyddi ar y lefel hon yn swyddi Swyddogion Diogelwch. Mae gwaith wedi'i wneud i ddenu rhagor o fenywod i'r swyddi hyn. Mae llawer o'r staff ym Mand Rheoli 2 yn gyfieithwyr sy'n fenywod.

Staff anabl yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2	G-1	Staff Uwch	Cyfanswm	
								Nifer	%
Anabl	0	2	0	1	1	0	0	4	1.1
Heb fod yn anabl	69	35	53	31	20	7	5	220	61.1
Dim ateb	46	21	38	14	14	3	0	136	37.8
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360	100.0

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai dim ond pedwar aelod o staff sydd wedi datgan eu bod yn anabl. Mae hynny'n cyfateb i 1.1% o'n gweithlu. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod 37.8% o'n gweithlu heb ddatgan hyd yn hyn a ydynt yn anabl ai peidio. Byddwn yn gweithio yn ystod y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y staff sy'n datgan a ydynt yn anabl ai peidio. Rydym yn annog ceisiadau am swyddi gan bobl anabl, ac rydym yn gweithredu'r safon Yn gadarnhaol o blaid pobl anabl.

Grŵp oedran yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2	G-1	Staff Uwch	Cyfanswm	
								Nifer	%
20-24	10	1	1	0	0	0	0	12	3.3
25-29	15	25	22	4	1	0	0	67	18.6
30-34	13	16	19	11	8	0	0	67	18.6
35-39	9	5	16	13	4	2	0	49	13.6
40-44	6	4	7	8	6	2	0	33	9.2
45-49	8	4	13	3	4	2	1	35	9.7
50-54	16	2	5	5	9	3	2	42	11.7
55-59	17	0	5	2	2	1	1	28	7.8
60-64	19	1	1	0	1	0	1	23	6.4
Dros 65	2	0	2	0	0	0	0	4	1.1
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360	100.0

Mae'r ffigurau'n dangos bod 50.8% o'n gweithlu'n perthyn i'r categori oedran 25-40. Dim ond 3.3% o'r gweithlu sydd yn y categori oedran 20-25 oed, ac mae 7.5% o'r gweithlu'n 60 oed neu'n hŷn. Rydym yn annog ceisiadau gan bobl hŷn, ac rydym wedi ein hachredu'n Hwrwyddwr dan y cynllun ar gyfer cyflogwyr sy'n gweithredu'n gadarnhaol o ran oedran.

Ethnigrwydd yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2, G-1 Staff Uwch	Cyfanswm	
						Nifer	%
Heb fod yn wyn	12	3	1	0	2	18	5.0
Gwyn	95	55	84	44	44	322	89.4
Dim ateb	8	0	6	2	4	20	5.6
Cyfanswm	115	58	91	46	50	360	100.0

Er mwyn bodloni gofynion Diogelu Data, rydym wedi cyfuno'r bandiau Gweithredol a Staff Uwch. Mae ein proffil staff yn dangos bod 89.4% o'n staff wedi nodi eu bod yn wyn, bod 5% y cant o'n staff wedi nodi eu bod yn ddu neu o leiafrifoedd ethnig, ac nad yw 5.6% wedi cofnodi eu hethnigrwydd hyd yn hyn. Rydym yn cydnabod bod dwy ran o dair o'n staff sy'n bobl dduon neu o leiafrifoedd ethnig ar radd Cymorth Tîm.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod poblogaeth y bobl sydd heb fod yn wyn a geir yng Nghaerdydd yn cyfateb i 10% o'r holl bobl sydd fel arfer yn byw yn y ddinas, ac roedd yr amcangyfrif ar gyfer Cymru gyfan yn llawer is, ar 2.9%.¹ Er mai 5% o'r gweithlu sy'n bobl dduon neu o leiafrifoedd ethnig, ac er bod hynny'n is na'r 10% yn yr ardal leol, mae'r boblogaeth o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn yr ardal sydd wedi'i diffinio'n swyddogol fel ardal teithio i'r gwaith Caerdydd² yn nes at 4.5%.

Cyfeiriadedd rhywiol yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2, G-1 Staff Uwch	Cyfanswm	
						Nifer	%
Dyn deurywiol	0	0	0	0	1	1	0.3
Dyn hoyw	0	0	2	1	2	5	1.4
Menyw hoyw/lesbiaidd	1	0	0	0	0	1	0.3
Heterorywiol	37	13	20	13	12	95	26.4
Dewis peidio â dweud	0	1	0	0	0	1	0.3
Dim ateb	77	44	69	32	35	257	71.4
Cyfanswm	115	58	91	46	50	360	100.0

Er mwyn bodloni gofynion Diogelu Data, rydym wedi cyfuno'r bandiau Gweithredol a Staff Uwch. Mae'r ffigurau'n dangos er bod 1.9% o'n gweithlu'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, nid yw 71.4% o'n gweithlu wedi cofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol hyd yn hyn. Byddwn yn gweithio yn ystod y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y staff sy'n cofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol.

¹ Beth sy'n Bwysig - 2010:2020 Strategaeth 10 mlynedd Caerdydd – Asesiad Prif Anghenion 2010

² Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o ffigurau Cyfrifiad 2001.

Statws amser llawn a rhan-amser yn ôl rhyw a gradd

	Cymorth Tîm			Rh-3			Rh-2		
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.
Menywod	32	7	39	28	0	28	49	14	63
Dynion	71	5	76	29	1	30	26	2	28
Cyfanswm	103	12	115	57	1	58	75	16	91

	Rh-1			G-2			G-1			Staff Uwch		
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.	Amser llawn	Rhan-amser	Cyf.
Menywod	23	2	25	15	4	19	7	0	7	2	0	2
Dynion	20	1	21	16	0	16	3	0	3	2	1	3
Cyfanswm	43	3	46	31	4	35	10	0	10	4	1	5

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod 27 o fenywod, sef 14.8% o'n staff sy'n fenywod, yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â 10 o ddynion, sef 5.6% o'n staff sy'n ddynion.

Crefydd / cred yn ôl gradd

	Cymorth Tîm	Rh-3	Rh-2	Rh-1	G-2	G-1	Staff Uwch	Cyfanswm	
								Nifer	%
Agnostig	1	2	1	2	1	0	0	7	1.9
Anffyddiwr	0	3	1	1	1	1	1	8	2.2
Cristion	2	2	6	4	3	0	0	17	4.7
Yr Eglwys yng Nghymru / Eglwys Lloegr	5	0	2	2	2	0	0	11	3.1
Hindŵ	1	0	0	0	0	0	0	1	0.3
Pabydd	4	1	0	0	0	0	0	5	1.4
Dim un	18	1	6	3	2	1	0	31	8.6
Arall	2	2	1	1	1	0	0	7	1.9
Dewis peidio â dweud	0	3	3	1	0	1	0	8	2.2
Dim ateb	82	44	71	32	25	7	4	265	73.6
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360	100.0

Mae'r ffigurau uchod yn dangos er y ceir rhychwant da o grefyddau/credoau yn y sefydliad, nid yw 73.6% o'r staff wedi datgan hyd yn hyn a oes ganddynt grefydd/cred. Byddwn yn gweithio yn ystod y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y staff sy'n cofnodi eu crefydd/cred.

Gwybodaeth ychwanegol:

- Nid oedd yr un achos o gwyno neu ddiswyddo a gawsom yn ymwneud ag ymddygiad staff a oedd yn gysylltiedig â nodwedd warchoddedig;
- Ni fynegodd y staff unrhyw gŵynion ynghylch camwahaniaethu neu fath arall o ymddygiad sydd wedi'i wahardd;
- Dychwelodd pob un o'r chwe aelod o staff benywaidd a aeth ar absenoldeb mamolaeth yn ystod 2011 i'r gwaith. O'r rheini, newidiodd un ohonynt ei phatrwm gweithio.
- Mae 25 o fenywod ac wyth dyn yn gweithio'n rhan-amser, ac o'r rheini mae pum menyw ac un dyn yn gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un yn rhan o drefniant rhannu swydd.

Atodiad C: Ystadegau recriwtio a chydraddoldeb o fis Ionawr 2011 i fis Mawrth 2012

Grwpiau oedran

Oedran	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Dan 20	10	1.6	3	30.0	1	33.3	0	0.0
20-24	117	19.0	29	24.8	3	10.3	8	27.6
25-29	93	15.1	26	28.0	7	26.9	7	26.9
30-34	84	13.6	23	27.4	3	13.0	7	30.4
35-39	65	10.6	13	20.0	4	30.8	4	30.8
40-44	54	8.8	15	27.8	2	13.3	3	20.0
45-49	55	8.9	10	18.2	0	0.0	2	20.0
50-54	45	7.3	8	17.8	1	12.5	4	50.0
55-59	25	4.1	5	20.0	1	20.0	2	40.0
Dros 60	1	0.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Dim ateb	67	10.9	30	44.8	5	16.7	6	20.0
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Rhyw

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Menywod	253	41.1	63	24.9	12	19.0	21	33.3
Dynion	361	58.6	99	27.4	15	15.2	22	22.2
Dim ateb	2	0.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Hunaniaeth o ran rhywedd

Ni chafwyd yr un ymgeisydd a oedd wedi datgan ei fod yn drawsrywiol.

Anabledd

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Anabl	28	4.5	7	25.0	2	28.6	0	0.0
Dim anabledd	498	80.8	122	24.5	18	14.8	36	29.5
Dewis peidio â dweud	6	1.0	1	16.7	0	0.0	0	0.0
Dim ateb	84	13.6	32	38.1	7	21.9	7	21.9
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Cynllun gwarantu cyfweliad

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Cyfweliad wedi'i warantu	14	2.3	2	14.3	0	0.0	1	50.0
Cyfweliad heb ei warantu	602	97.7	160	26.6	27	16.9	42	26.3
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Ethnigrwydd

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Gwyn	482	78.2	126	26.1	20	15.9	33	26.2
Heb fod yn wyn	39	6.3	3	7.7	1	33.3	0	0.0
Dim ateb	95	15.4	33	34.7	6	18.2	10	30.3
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Cenedligrwydd

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Prydeinig neu Brydeinig Cymysg	318	51.6	91	28.6	14	15.4	26	28.6
Seisnig	3	0.5	1	33.3	0	0.0	0	0.0
Gwyddelig	2	0.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Albanaidd	3	0.5	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cymreig	229	37.2	60	26.2	10	16.7	16	26.7
Cenedligrwydd arall	28	4.5	3	10.7	1	33.3	1	33.3
Dim ateb	33	5.4	7	21.2	2	28.6	0	0.0
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Cyfeiriadedd rhywiol

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Heterorywiol	481	78.1	115	23.9	18	15.7	32	27.8
Dyn deurywiol	2	0.3	1	50.0	0	0.0	0	0.0
Menyw ddeurywiol	4	0.6	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Menyw hoyw/lesbiaidd	5	0.8	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Dyn hoyw	10	1.6	5	50.0	1	20.0	1	20.0
Arall	2	0.3	1	50.0	0	0.0	0	0.0
Dewis peidio â dweud	23	3.7	5	21.7	0	0.0	2	40.0
Dim ateb	89	14.4	35	39.3	8	22.9	8	22.9
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Crefydd/Cred

	Y ceisiadau a ddaeth i law		Y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio		Cynnig swydd		Wrth gefn	
	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a ddaeth i law	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio	Nifer	% y ceisiadau a fu'n llwyddiannus yn y broses sifftio
Cristion	101	16.4	13	12.9	3	23.1	2	15.4
Yr Eglwys yng Nghymru/ Eglwys Lloegr	63	10.2	22	34.9	2	9.1	8	36.4
Bwdhydd	1	0.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Hindŵ	1	0.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Mwslim	19	3.1	3	15.8	1	33.3	0	0.0
Sîc	1	0.2	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Pabydd	20	3.2	8	40.0	1	12.5	2	25.0
Arall	25	4.1	8	32.0	2	25.0	1	12.5
Dim un	235	38.1	63	26.8	8	12.7	21	33.3
Dewis peidio â dweud	20	3.2	4	20.0	0	0.0	1	25.0
Dim ateb	130	21.1	41	31.5	10	24.4	8	19.5
Cyfanswm	616	100.0	162	26.3	27	16.7	43	26.5

Atodiad Ch – Adolygiad Cyflog Cyfartal

Cyflogau cyfwerth ag amser llawn ar 31 Rhagfyr 2011

Aethom ati i gynnal Adolygiad Cyflog Cyfartal yn seiliedig ar gyflogau a oedd yn cael eu talu ar 31 Rhagfyr 2011, a nodwyd lle y gallai gwahaniaethau o ran y rhywiau fodoli.

Er bod y dadansoddiad yn awgrymu bod y cyflog sylfaenol canolrifol ar gyfer gweithwyr sy'n fenywod 37.3% yn uwch na'r cyflog sylfaenol canolrifol ar gyfer gweithwyr sy'n ddynion, a bod y cyfanswm cyflog canolrifol ar gyfer gweithwyr sy'n fenywod 26.2% yn uwch na'r cyfanswm cyflog canolrifol ar gyfer gweithwyr sy'n ddynion, y rheswm dros hynny yw'r ffaith bod gan y Comisiwn nifer anghymesur o uchel o weithwyr sy'n ddynion yn y band sy'n cael y cyflog isaf, sef y band Cymorth Tîm. Mae hynny o ganlyniad i'r ffaith bod bron i hanner y staff ar y radd hon yn cynnwys gweithwyr gwasanaeth diogelwch y Comisiwn, ac mae'r gweithwyr hynny'n ddynion gan mwyaf. Mae ymarferion recriwtio wedi ceisio lleihau'r rhaniad anghymesur rhwng dynion a menywod yn y gwasanaeth hwn, ond mae hon yn broses araf.

Wrth ystyried y gwahaniaethau fesul gradd, ni cheir yr un radd lle mae'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyflog canolrifol yn fwy na 4.2%. Mae'r gwahaniaeth hwn (o 4.2%) i'w weld yng ngradd Rh-3, ac mae hynny'n bennaf oherwydd hyd gwasanaeth yr unigolion dan sylw.

Rydym hefyd wedi cymharu cyflogau rhan-amser a'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn. Mae hynny wedi dangos bod gweithwyr rhan-amser sy'n fenywod yn ennill cyflogau cyfwerth ag amser llawn uwch na gweithwyr amser llawn sy'n ddynion.

Pob aelod o staff

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£17,410	£17,410	0.0%		£17,410	£17,410	0.0%
Uchafswm	£117,423	£138,640	18.1%		£117,423	£138,640	18.1%
Cymedrig	£30,035	£33,925	12.9%		£30,985	£34,493	11.3%
Canolrifol	£23,719	£32,567	37.3%		£25,809	£32,567	26.2%
Nifer	175	182			175	182	

Cymorth Tîm

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£17,410	£17,410	0.0%		£17,410	£17,410	0.0%
Uchafswm	£20,483	£20,483	0.0%		£34,247	£26,321	-23.1%
Cymedrig	£19,944	£19,600	-1.7%		£20,757	£20,035	-3.5%
Canolrifol	£20,483	£20,483	0.0%		£20,483	£20,483	0.0%
Nifer	77	40			77	40	

Rh-3

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£20,585	£21,630	5.1%		£20,585	£21,630	5.1%
Uchafswm	£25,809	£25,809	0.0%		£34,135	£28,795	-15.6%
Cymedrig	£24,008	£24,029	0.1%		£25,161	£24,328	-3.3%
Canolrifol	£23,719	£23,719	0.0%		£24,764	£23,719	-4.2%
Nifer	29	27			29	27	

Rh-2

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£26,321	£26,321	0.0%		£26,321	£26,321	0.0%
Uchafswm	£34,002	£34,002	0.0%		£39,734	£38,033	-4.3%
Cymedrig	£31,528	£32,350	2.6%		£32,870	£33,147	0.8%
Canolrifol	£31,799	£34,002	6.9%		£33,292	£34,002	2.1%
Nifer	28	63			28	63	

Rh-1

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£34,821	£34,821	0.0%		£34,821	£34,821	0.0%
Uchafswm	£43,014	£43,014	0.0%		£46,906	£49,815	6.2%
Cymedrig	£40,439	£41,102	1.6%		£41,189	£42,255	2.6%
Canolrifol	£43,014	£43,014	0.0%		£43,014	£43,014	0.0%
Nifer	21	24			21	24	

G-2

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£49,322	£45,062	-8.6%		£49,322	£45,062	-8.6%
Uchafswm	£55,714	£55,714	0.0%		£67,581	£55,714	-17.6%
Cymedrig	£53,888	£52,350	-2.9%		£55,086	£52,350	-5.0%
Canolrifol	£54,649	£53,583	-1.9%		£55,714	£53,583	-3.8%
Nifer	14	19			14	19	

G-1

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£65,893	£63,373	-3.8%		£65,893	£63,373	-3.8%
Uchafswm	£68,412	£68,412	0.0%		£68,412	£68,412	0.0%
Cymedrig	£67,572	£66,613	-1.4%		£67,572	£66,613	-1.4%
Canolrifol	£68,412	£65,893	-3.7%		£68,412	£65,893	-3.7%
Nifer	3	7			3	7	

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Chynghorwyr Arbennig

	Cyflog sylfaenol				Cyfanswm cyflog		
	Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth		Dynion	Menywod	% y gwahaniaeth
Lleiafswm	£108,065	£117,423	8.7%		£108,065	£117,423	8.7%
Uchafswm	£117,423	£138,640	18.1%		£117,423	£138,640	18.1%
Cymedrig	£111,713	£128,032	14.6%		£111,713	£128,032	14.6%
Canolrifol	£109,650	£128,032	16.8%		£109,650	£128,032	16.8%
Nifer	3	2			3	2	

Gweithwyr amser llawn o'u cymharu â gweithwyr rhan-amser

	Cyflog sylfaenol						
	Dynion		Menywod		% y gwahaniaeth		
	Amser llawn	Rhan-amser	Amser llawn	Rhan-amser	Dynion rhan-amser o'u cymharu â dynion amser llawn	Menywod rhan-amser o'u cymharu â menywod amser llawn	Menywod rhan-amser o'u cymharu â dynion amser llawn
Lleiafswm	£17,410	£20,483	£17,410	£17,410	17.7%	0.0%	0.0%
Uchafswm	£108,065	£117,423	£138,640	£55,714	8.7%	-59.8%	-48.4%
Cymedrig	£29,314	£39,029	£34,174	£32,837	33.1%	-3.9%	12.0%
Canolrifol	£23,719	£20,585	£31,031	£34,002	-13.2%	9.6%	43.4%
Nifer	162	13	148	34			

	Cyfanswm cyflog						
	Dynion		Menywod		% y gwahaniaeth		
	Amser llawn	Rhan-amser	Amser llawn	Rhan-amser	Dynion rhan-amser o'u cymharu â dynion amser llawn	Menywod rhan-amser o'u cymharu â menywod amser llawn	Menywod rhan-amser o'u cymharu â dynion amser llawn
Lleiafswm	£17,410	£20,483	£17,410	£17,410	17.7%	0.0%	0.0%
Uchafswm	£108,065	£117,423	£138,640	£55,714	8.7%	-59.8%	-48.4%
Cymedrig	£30,321	£39,261	£34,716	£33,521	29.5%	-3.4%	10.6%
Canolrifol	£25,809	£20,585	£31,727	£34,002	-20.2%	7.2%	31.7%
Nifer	162	13	148	34			